# Derwen



## Tîm Integredig Plant Anabl

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## Beth yw Derwen?

Tîm Integredig Plant Anabl sy'n gweithio hefo plant a phobl ifanc 0 - 18 oed yng Ngwynedd. Mae'r Tîm yn darparu asesiad, ymyrraeth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc gydag anghenion parhaus o ganlyniad i anableddau neu waeledd. Mae'r Tîm yn anelu i gefnogi teuluoedd, gofalwyr a'r gymuned ehangach i hybu iechyd a lles plant a phobl ifanc anabl yng Ngwynedd.

## Beth mae Derwen yn ei gynnig?

- Un rhif ffôn i gysylltu â'r Tîm
- Cyngor a gwybodaeth
- Asesiad cychwynnol gan Swyddog Dyletswydd
- Mewnbwn proffesiynol i gwrdd ag anghenion y plentyn
- Adolygiad aml-asiantaethol o anghenion y plentyn
- Hawl i asesiad o anghenion y gofalwr.





## Beth fydd yn digwydd ar ôl i fy mhlentyn gael ei gyfeirio at Derwen?

Fe fydd y Tîm yn:

- Penderfynu hefo chi beth yw anghenion eich plentyn
- Cyfeirio eich plentyn at unrhyw wasanaeth sydd ei angen arno fo/arni hi
- Helpu i gyd-drefnu cynllun gofal eich plentyn
- Adolygu a monitro cynllun gweithredu a chynllun gofal eich plentyn yn rheolaidd
- Anelu at wneud yn siŵr fod pawb sy'n cynnig gwasanaeth i'ch plentyn yn gweithio hefo'i gilydd
- Trafod, paratoi a chynllunio hefo chi ar gyfer dyfodol eich plentyn
- Trafod eich pryderon a chynnig cefnogaeth i chi os byddwch chi angen hynny
- Bod ar gael i'ch cefnogi mewn cyfarfodydd, neu ysgrifennu llythyrau ar eich rhan os dymunwch hynny
- Darparu gwasanaethau cefnogol, lle bo angen
- Cynnig cymorth ymarferol a chyngor i chi.

## Pwy sy'n gallu cyfeirio plentyn at Derwen?

- Y plentyn / person ifanc ei hun
- Rhiant / Gofalwr
- Person proffesiynol gyda chaniatâd y teulu

# CRITERIA MYNEDIAD I WASANAETH

| Mae Derwen yn gweithio gyda phlant anabl ble mae….. | Nid yw Derwen yn gweithio gyda phlant ble mae…. |
|---|---|
| ….. anghenion sydd angen eu cyfarch ar hyn o bryd. | ….. anghenion y plentyn anabl yn cael eu cyfarch ar hyn o bryd. |
| ….. salwch neu gyflwr iechyd meddwl yn ogystal â'r anabledd. | ….. salwch neu gyflwr iechyd meddwl heb fod yna anabledd. |
| ….. sawl oediad datblygiadol arwyddocaol neu oediad dwys er mwyn asesu ar gyfer asesiad pellach. | ….. oediad mewn maes datblygiadol e.e. oediad iaith a llefaredd neu toiledu. |
| ….. problemau ymddygiad yn ogystal ag oediad datbly-giadol arwyddocaol. | ….. problemau ymddygiad lle nad oes oediad datblygiadol arwyddocaol. |

……./…….

| *parhad .......* **Mae Derwen yn gweithio gyda phlant anabl ble mae......** | **Nid yw Derwen yn gweithio gyda phlant ble mae.....** |
|---|---|
| ..... nam synhwyraidd sylweddol e.e. clyw/golwg sydd yn amharu ar allu'r plentyn i fyw bywyd llawn. | ..... nam synhwyraidd e.e. clyw/golwg sydd wedi ei drin yn llwyddiannus. |
| ..... plant gydag oediad datblygiadol arwyddocaol ac/neu anabledd lle nad yw gwasanaethau prif lif yn gallu cyfarfod yr anghenion arbenigol. | ..... oediad datblygiadol ac/neu anabledd lle mae gwasanaethau prif lif yn gallu cyfarfod yr anghenion. |
| ..... ADHD yn ogystal ag anabledd neu oediad datblygiadol arwyddocaol. | ..... ganddynt ADHD heb anabledd neu oediad datblygiadol arwyddocaol. |
| ..... gweithiwr proffesiynol o dîm arall y mae arno angen cymorth arbenigol gan Derwen i asesu ar y cyd neu gynnig ymyrraeth. | ..... gwaith tîm arall (e.e. ymchwiliad amddiffyn plant) yn brif ffocws, ac nad oes angen asesiad/ymyrraeth arbenigol anabledd pellach. |

  

# Pwy sy'n gweithio i Derwen?

Mae Derwen yn bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Mae'r Tîm yn cynnwys:

- **SWYDDOG GOFAL CWSMER A DYLETSWYDD**

Rôl y Swyddog ydy rhoi gofal cwsmer da i deuluoedd a gofalwyr plant sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth integredig drwy:-

- Ymateb yn brydlon i holl gyfeiriadau newydd i'r gwasanaeth,
- Cwblhau asesiad cychwynnol o angen y plentyn a'i ofalwyr,
- Darparu gwybodaeth gefndirol am y gwasanaeth i deuluoedd,
- Cefnogi teuluoedd a gofalwyr yn y Cyfarfod Cynllunio Cyntaf,
- Cadw mewn cysylltiad â'r teulu tra'n aros am wasanaeth pellach.



- **NYRSYS CYMUNED**

Rôl y Nyrs ydy galluogi'r rhiant/gofalwr i gyrraedd potensial y plentyn. Fe fydd y Nyrs yn rhoi cyngor, gwybodaeth a'r sgiliau i'r rhiant er mwyn helpu gwneud hyn. Disgwylir i'r rhiant/gofalwr ddilyn y cyngor sydd wedi ei gytuno rhyngddyn nhw â'r nyrs, ac i adrodd yn ôl ar ddatblygiad y plentyn ym mhob apwyntiad.

- **SEICOLEGWYR CLINIGOL**

Mae Seicolegwyr Clinigol yn asesu'r plentyn ac yn datblygu dealltwriaeth o anawsterau datblygiadol, teimladau ac ymddygiad y plentyn. Mae hyn yn cyfrannu tuag at gynllunio'r hyn fydd o help ar gyfer datblygiad a lles y plentyn. Gall seicolegwyr weithio gyda phlentyn, teulu neu eraill i gyflwyno newidiadau i hybu datblygiad a lles y plentyn.





- **GWEITHWYR CYMDEITHASOL**

Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn gweithio gyda phlant/pobol ifanc a'u teuluoedd i sicrhau fod anghenion y plentyn/person ifanc yn cael eu diwallu. Maen nhw'n cefnogi ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r plentyn/person ifanc a'u teuluoedd er mwyn cwblhau asesiadau.

Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn trefnu pecynnau gofal pan fo angen, ac yn gwneud argymhellion neu gyfeiriadau i wasanaethau ac asiantaethau eraill. Maen nhw hefyd yn cadw cofnodion manwl, ac yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd perthnasol.

- **SWYDDOG CYSWLLT ADDYSG**

Mae'r Swyddog Cyswllt Addysg yn ceisio hwyluso bywyd mewn ysgolion i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau drwy sicrhau fod yr holl asiantaethau sy'n cefnogi'r unigolyn yn cyd-weithio'n llwyddiannus.  Gall hyn olygu ei fod yn trafod gyda sawl proffesiwn ar yr un pryd - yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn.

Rhan bwysig o'r swydd yw hyrwyddo cyd-weithio rhwng gweithwyr proffesiynol Derwen a'r :

- Adran Addysg - gan gynnwys y Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
- Gwasanaeth Iechyd gan gynnwys therapyddion o dimau amrywiol

Y nod yw ceisio sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys yn unol â'u gallu, naill ai mewn ysgolion prif lif, drwy unedau arbennig, neu mewn ysgolion arbennig.

- **GWASANAETHAU CEFNOGOL**

Mae'r Gwasanaethau Cefnogol yn gweithio'n agos gydag aelodau eraill tîm Derwen.  Cyflogir Gweithwyr Cefnogol, sy'n gweithio amrywiol oriau, er mwyn:-

- galluogi plentyn/person ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, er enghraifft, mynd i nofio, mynychu Clwb Ieuenctid, neu ymuno â chlwb fel y Sgowtiaid,

......./.......

- cynnig ysbaid i ofalwyr trwy fynd â'r plentyn neu'r person ifanc allan i'r gymuned,
- gofalu am blentyn neu berson ifanc yn ei gartref ei hun,
- darparu gofal dros nos yn y cartref, os yn ymarferol bosib.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gwasanaeth cefnogol ar ei uchaf dros wyliau'r haf.

- **THERAPYDD GALWEDIGAETHOL (Addasiadau)**

Yn dilyn y cyfarfodydd cynllunio a'r sgrîno cychwynnol, fe fydd y Therapydd Galwedigaethol yn darparu asesiad ar sail gofynion y plentyn/person ifanc a'i anabledd. Fe all fod gan y plentyn/person ifanc anghenion symud a thrin neu anghenion gofal - bydd cyngor ac argymhellion yn cael eu rhoi er mwyn lleihau risg a sicrhau diogelwch wrth symud a thrin.

Gall y Therapydd Galwedigaethol hefyd roi cyngor ynglŷn ag addasiadau bychain i'r tŷ e.e. canllawiau grisiau. Mae'r criteria ar gyfer addasiadau mawr yn gofyn fod gan blentyn/berson ifanc anabledd neu ofynion dwys a pharhaol. Bydd asesiad pellach yn cael ei wneud i ganfod anghenion y plentyn/person ifanc.



- **SWYDDOG GWYBODAETH**

Mae'r Swyddog Gwybodaeth yn darparu gwybodaeth i blant a theuluoedd ynglŷn â:

- Grwpiau hunangymorth
- Mudiadau/gwasanaethau gwirfoddol
- Gweithgareddau hamdden a chwaraeon
- Cofrestr Plant Anabl Gwynedd
- Diwrnodau Hwyl i blant anabl a'u teuluoedd wedi eu trefnu gan Derwen.

Mae newyddlen *Yr Enfys* yn cael ei dosbarthu i blant sydd ar y 'Gofrestr Plant Anabl a Phlant sy'n Wael'.  Mae 3 rhifyn bob blwyddyn, ac mae'n cynnwys erthyglau am bobl ifanc, gwasanaethau, cysylltiadau, a gwybodaeth ddefnyddiol.



* * * * * * * *



Mae aelodau tîm Derwen hefyd yn cyd-weithio'n agos gyda Meddygon Plant Cymunedol, Cynrychiolwyr Addysg, Therapyddion, Ymwelwyr Iechyd a phroffesiynau perthnasol eraill.

# COFRESTR PLANT ANABL

Yn ôl Deddf Plant 1989, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ym Mhrydain gadw cofnod cyfredol o blant anabl yn eu hardal at ddibenion monitro, cynllunio gwasanaethau a rhannu gwybodaeth. Yng Ngwynedd, gelwir y cofnod yma'n 'Gofrestr Plant Anabl', ac fe'i cedwir ar ffurf bas data electroneg. Mae'r wybodaeth ar y 'Gofrestr' yn gwbwl gyfrinachol - dim ond aelodau o dîm Derwen sydd â'r hawl i weld y 'Gofrestr' - a hynny drwy'r Swyddog Gwybodaeth.

Mae cofrestru eich plentyn yn gwbwl wirfoddol, ond mae llawer o fanteision os byddwch yn cytuno i enw eich plentyn gael ei gynnwys. Byddwch yn derbyn:

- Newyddlen *Yr Enfys* – dair gwaith y flwyddyn
- Cyfeiriadur Gwasanaeth – ffeil yn llawn gwybodaeth am anableddau a gwasanaethau
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau/cyrsiau/cefnogaeth sydd ar gael gan fudiadau lleol.

Os hoffech gynnwys enw eich plentyn ar y 'Gofrestr Plant Anabl' cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth yn swyddfa Derwen yng Nghaernarfon.

# SUT I GYSYLLTU HEFO DERWEN

| ARFON | DWYFOR | MEIRIONNYDD |
|---|---|---|
| Bron Hendre,<br>Lôn Parc<br>Caernarfon<br>LL55 2HP | Uned Iechyd<br>Yr Ala<br>Pwllheli<br>LL53 5BL | Swyddfeydd Ardal<br>Meirionnydd<br>Cae Penarlâg<br>Dolgellau<br>LL40 2YB |
| ☎ 01286 674686 | ☎ 01758 701000 | ☎ 01341 424503 |



**neu e-bost:** [Derwen@gwynedd.gov.uk](mailto:Derwen@gwynedd.gov.uk)

## SUT I WNEUD SYLW/CWYN NEU GANMOL

Er mwyn sicrhau fod ein gwasanaeth o'r ansawdd flaenaf, mae eich sylwadau a'ch awgrymiadau am ein gwasanaeth yn bwysig iawn i ni.

Mae croeso i chi ddweud wrthym ni os nad ydych yn hapus gydag unrhyw beth. Os na fydd hi'n bosib datrys problem yn syth, yna gallwch anfon eich sylw neu eich cwyn yn ysgrifenedig i un o'r cyfeiriadau uchod.

Rydym eisiau gwybod pan fo pethau wedi mynd yn dda hefyd, neu os oes gennych chi unrhyw syniadau ynglŷn â sut y gallwn ni wneud pethau'n wahanol neu'n well.